# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FAI 7fed 2024

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (Cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sian Williams
Cyng.Teifi Evans
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Rob Jones
Cyng. Sharon Thomas

**Clerc** Rhian Jones

Diolchodd y Cadeirydd Ceri Jones i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ac fe ddiolchodd y Cyng Sian Williams i Ceri am ei waith a'r oriau ychwanegol dros y flwyddyn. Oherwydd byr-rybudd y Cadeirydd newydd, cytunodd y Cyng Ceri Jones i gadeirio'r cyfarfod heno.

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng. Carol Davies, Cyng Maldwyn Lewis a'r Cyng Llyr Evans.

.

**2. Datgan Diddordeb**

**3. Cofnodion**

**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Ebrill a chynigiodd y Cynghorydd Mark Davies eu bod yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sharon Thomas.

.

**4.Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1 -** Mandate Nat West – dim diweddariad.
**4.2 –** Mae angen trefnu Tystysgrif i cyflwyno i'r Cyng Roger Davies am ei waith ers 2007.
**4.3** - Mae angen ychwanegu diweddariad o'r cyrsiau ar yr Agenda yn fisol.
**4.4** - Gobeithio y medrwn ychwanegu Offfice 365 i'r gliniadur yn Rhydlewis yn y Cyfarfod nesaf.
**4.5** - Dim diweddariad am luniau T Llew Jones.
**4.6 –** Hysbysfwrdd newydd Ffostrasol – i ddal 6 tudalen A4. Bydd y pris ychydig yn fwy oherwydd y maint, ond dal llawer rhatach na beth sydd i'w gael ar lein.
**4.7** – mae mainc newydd wedi ei gosod yn Rhydlewis ac mae pawb yn bles iawn gyda hi. Mae'r hen fainc gyda'r Cyng.Ceri Jones er mwyn ei atgyweirio, yna rhaid meddwl am leoliad newydd iddi. Ar ol i'r Cyng Teifi Evans sortio alln mainc Brongest, gall Gavin ddod i dynnu lluniau.
**4.8** – System Hybrid – Jabra, bydd angen cael 3 pris cyn mynd ati i brynnu'r system.
**4.9** – Mae'r Cyng Ceri Jones wedi cael 10 bathodyn arall ar gyfer Cadwyn y Cadeirydd oddi wrth David Lloyd, ac wedi cael ei dalu y mis yma.
**4.10** – Mae Gwyn Jones wedi ymateb ac yn barod i gwrdd i sortio allan yr Awdit. Wedi cysylltu gyda Deryck Evans ddwy waith ond dal yn disgwyl ei ymateb. Efallai bydd rhaid cysylltu gyda rhywun arall o Awdit Cymru. Wedi trefnu fel Cynghorwyr i gwrdd yn Neuadd Coedybryn am 7 o'r gloch ar Fai 20fed i fynd trwy'r papurau a'r ffeiliau o'r blynyddoedd ynghynt er mwyn eu cael yn drefnus.

**5. Materion y Cynghorydd Sir.**

Mai 17-21ain – Ceredigion yn cael arolygiad gan Estyn

**6.Gohebiaeth**

**6.1** – Tystysgrifau am y Cyrsiau. Mae rhai wedi cyrraedd, ond dal i ddisgwyl ambell un o Fodiwl 2.

**6.2** - Derbyniwyd rhestr o gyrsiau sydd ar gael dros y misoedd nesaf.

**6.3** –Mae Gwyn Jones wedi cysylltu ac yn barod i ymuno mewn cyfarfod am yr Awdit.Mae'n barod i'n cynortheyo eto i edrych dros yr Awdit.

**6.4** – Derbyniwyd llythyr wrth Elin Jones am ddiwedd gwasanaeth Bwcabys.

**6.5** – Poster 'Cynnal y Cardi' – angen rhoi ar Facebook.

**6.6** –Mae ein Yswiriant yn ddyledus diwedd y mis. Wedi cael pris am flwyddyn, bydd y Clerc yn holi iddynt anfon pris am dair blynedd a cewn ei drafod yn ystod cyfarfod yr 20fed o Fai.

**6.7** - Derbyniwyd llythyr cyffredinol am yr Awdit wrth Deryck Evans.

**6.8** – Mae'r gwasanaeth 'Y Cardi Bach' wedi dirwyn i ben, ond bydd y Brodyr Richards yn parhau gyda'r T5.

**6.9** – Lwfans Aelodau – llenwi ffurflen i ddweud nad yw'r Cynghorwyr eisiau cael eu talu, caiff hyn ei wneud yn y cyfarfod nesaf.

**6.10** – Mae cyfarfod ardal yng Nghei Newydd ar y 4ydd o Orffennaf ac mae'r Cadeirydd newydd yn hapus i fynychu.

**7.Cynllunio**

**7.1** – Blaenwaun – Ffostrasol/Bwlchygroes. Dim gwrthwynebiad, maent angen ychwanegu lifft yn lle grisiau i wneud yr adeilad yn hygyrch.

**8. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Sharon Thomas a Mark Davies.

| | |
|---|---|
| Ashmole & Co - £90.00 | **001754** |
| Ceri Jones ( David Evans ) - £61.80 | **001755** |
| £153.45 | **001760** |
| Trefhedyn - £122.00 | **001756** |
| Cyflog y Clerc - £258.18 | **001757** |
| HMRC - £64.40 | **001758** |
| Un Llais Cymru - £152.00 | **001759** |

Ar ôl y Cyfarfod ychwanegol ar Fai 20fed, bydd angen i'r Clerc gysylltu gyda Ashmole & Co i nodi yr oriau ychwanegol o waith y mis hwn.

Gobeithio cyn i ni gyfarfod ar Fai 20fed byddwn wedi derbyn pris am yr Yswiriant, ond bydd rhaid arwyddo ar y nososn honno er mwyn gwneud y taliad mewn pryd.

Angen cysylltu gyda Jill Lowry i weld pwy i anfon siec Pathways ato er mwyn cadw'r arian yn lleol.

**9. Materion Ardal**

9.1 –Blodau – run peth a llynedd, ond mae angen casgen ychwanegol ar gyfer Capel Cynon Mae'r Cyng Ceri Jones yn barod i gasglu'r gasgen o Trefhedyn a gosod cerrig ynddi a bydd y Cyng Rob Jones yn dod a'r pridd ac fe fydd Y Cyng Sian Williams yn casglu'r blodau. Bydd angen help i fynd o gwmpas y pentrefi i'w plannu..

9.2 – Pan yn gosod y blodau, bydd angen mynd ati i olchi arwyddion y pentrefi.
9.3 - Mae angen cysylltu gyda Clic am dyllau sydd wedi ymddangos yn y ffordd. ger Penllwybr, ar gyffordd Ffostrasol tua Penrhiwpal a tu allan i Lys Awel ar rhiw Troedyraur.
9.4 - Mae'r gwteri wedi llenwi lan am Salem yn Brongest. Mae angen eu clirio i osgoi llifogydd.
9.5 – Pob Lwc i bawb sy'b cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis.
9.6 – Llongyfarchiadau i ail dîm Emlyn (Y Dreigiau) ar ennill y ffeinal ym Mharc y Sgarlets dydd Sadwrn yn erbyn Porth Tywyn.
9.7 – Mae Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn yn cynnal gemau terfynnol Ieuenctid nos Wener a dydd Sul nesaf.
9.8 – Mae angen Cynghorydd Newydd arnom, angen creu hysbysiad.

**10. Cinio Blynyddol**
( Ffostrasol, La Calabria, Daffodil, Porth, Talgarreg)
Penderfynwyd cynnal y Cinio Blynyddol ar Fehefin 7fed yn Nhafarn Ffostrasol. Bydd angen i'r Clerc gysylltu i drefnu a chael bwydlen.
Bydd angen cysylltu gyda'r Cyn Gynghorydd Roger Davies a'i wraig Teleri i holi iddynt ymuno gyda ni ar y noson.

**11. Cyfarfod Nesaf**

11.1 – Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis af y 4ydd o Fehefin am 7:30 o'r gloch.

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod tynnwyd y cyfarfod i ben am 9:45yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

--------------------------------------------------------- -------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad